Dosbarthiadau meistri celf i blant

# Criw Celf



Cyfarwyddiadau ymgeisio
ar gyfer aelodaeth 2015/16

# gwybodaeth...



Mae Criw Celf yn brosiect celfyddyd ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r cynllun yn cael ei redeg gan bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru gan dderbyn cefnogaeth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan www.criwcelf.co.uk a'n tudalen Facebook - 'Criw Celf'.

**Beth yw'r cynllun?**

Cyfres o ddosbarthiadau meistr sydd yn rhoi cyfle i blant sydd wedi dangos talent neu/a diddordeb arbennig mewn celfyddyd i ddatblygu eu sgiliau a'u profiadau.

**Pwy fydd yn arwain y sesiynau?**

Bydd artistiaid proffesiynol a phrofiadol yn cael eu cyflogi i arwain y sesiynau.

**Beth fydd cynnwys y cynllun?**

- Bydd pob plentyn yn cael mynychu rhaglen o ddosbarthiadau meistri undydd yng nghwmni artistiaid proffesiynol sy'n arbenigo mewn amrywiol feysydd. Bydd cyfanswm o 6 diwrnod o hyfforddiant blynyddol i'w cynnal ar ddyddiau Sadwrn neu Sul. Gan y bydd aelodau Criw Celf yn dod o leoliadau ar draws pob sir ac oherwydd bod y rhaglen o weithgareddau yn anelu i roi profiadau amrywiol a chyffrous i aelodau Criw Celf, mi fydd angen teithio i wahanol leoliadau o fewn y siroedd.
- Ymweliad i oriel/stiwdio
- Bydd pob plentyn yn derbyn pecyn celf a fydd yn cynnwys amrywiol ddeunyddiau arlunio o ansawdd. Pwrpas darparu'r pecynnau yma fydd galluogi'r plant i ymarfer darlunio gartref.
- Arddangosfa o waith celf y plant.

**A oes angen talu?**

Ariennir y cynllun gan yr Awdurdodau Lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru ac fe fydd gofyn i bob plentyn dalu ffi aelodaeth o £35.00 am y flwyddyn.

Cysylltwch a'r ysgol neu Swyddog Mwy Abl a Thalentog y Cyngor Sir i weld os oes cymorth tuag at gost y prosiect.

Cyfrifoldeb y rhieni fydd cludo plant i'r dosbarthiadau a darparu pecynnau cinio.

**Sut mae ymgeisio?**

- Dim ond gofod i 25 o blant fesul Sir sydd ar gael yn 2015-16
- Gall pob ysgol gynnig 10 disgybl i gael eu cysidro
- Mae croeso i ddisgyblion sydd yn derbyn eu haddysg y tu allan i'r ysgol roi cais i mewn.

Bydd bob ysgol gynradd o bob sir yn derbyn gwahoddiad i enwebu disgyblion sydd wedi arddangos dawn a/neu ddiddordeb arbennig mewn celf i fod yn aelod o Griw Celf. Am wybodaeth bellach ynglŷn â sut i ymgeisio, dyddiad cau ac oed y disgyblion ewch i'r adran berthnasol am fanylion eich sir. Bydd angen i bob plentyn a enwebir cyflwyno'r canlynol ar gyfer asesiad:

- Hunan bortread 2D, wedi ei greu gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau. (Dim mwy na maint papur A3)
- Darlun 2D o'r olygfa a geir drwy unrhyw ffenestr gan ddefnyddio unrhyw gyfwng neu gyfuniad o gyfryngau. (Dim mwy na maint papur A3) neu celfwaith 2D/3D ar y thema 'Breuddwyd' (os ydi'r gwaith yn rhy fawr fe dderbynnir ffotograff)
- Paragraff byr yn egluro pam yr hoffent ymaelodi â Chriw Celf. (Dim mwy na 50 o eiriau)

Gwnewch yn siŵr bod enw ac oed y plentyn, enw'r ysgol, cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost y rhieni a rhif ffôn cartref ar gefn pob darn o waith. Dim ond y gwaith sydd a'r wybodaeth yma ar y cefn fydd yn cael ei gysidro.







# gwybodaeth...



**Mae pwy sydd yn gallu ymgeisio a'r dyddiad cau yn unigryw i bob sir. Darllenwch y wybodaeth am eich ardal yn ofalus.**

**ANGLESEY**

Gall **disgyblion o flwyddyn 5 a 6 gael eu henwebu** i ymuno â Chriw Celf yn Ynys Môn.
Disgyblion Ynys Môn i yrru eu cais erbyn **Dydd Gwener 28 o Awst 2015** at:
Criw Celf, Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TQ.
Dylid ysgolion ac unigolion Ynys Môn sydd angen mwy o wybodaeth gysylltu â Annwen Burgess-Williams ar 01248 724444 neu 01248 752023 e-bost ABXLH@anglesey.gov.uk

**CONWY**

Gall **disgyblion o flwyddyn 5 a 6 gael eu henwebu** i ymuno â Chriw Celf yng Nghonwy.
Disgyblion Conwy i yrru eu cais erbyn **Dydd Gwener 28 o Awst 2015** at:
Criw Celf, Diwylliant a Gwybodaeth, Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Adeilad y Llyfrgell, Mostyn Street, Llandudno LL30-2RP.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch a sian.young@conwy.gov.uk / 01492 575572.

**DENBIGHSHIRE**

Disgyblion **blwyddyn 6 yn unig i gael eu henwebu** i ymuno a Chriw Celf yn Sir Ddinbych.
Dylai disgyblion Sir Ddinbych yrru eu ceisiadau erbyn **Dydd Gwener y 19 o Fehefin 2015** at:
Criw Celf, Canolfan Grefft Rhuthun, Heol y Parc, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 1BB
Dylid ysgolion ac unigolion Sir Ddinbych sydd angen mwy o wybodaeth gysylltu â Siân Fitzgerald ar 01824 708216 neu e-bost sian.fitzgerald@denbighshire.gov.uk

**FLINTSHIRE**

Gall disgyblion o **flwyddyn 5 a 6 gael eu henwebu** i ymuno â Chriw Celf yn Sir y Fflint.
Disgyblion Sir y Fflint i yrru eu cais erbyn **Dydd Gwener 19 o Fehefin** at:
Criw Celf, Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau, Cyngor Sir y Fflint, Pencadlys y Llyfrgell, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NW. Dylid ysgolion ac unigolion Sir Y Fflint sydd angen mwy o wybodaeth gysylltu â Gwenno Jones ar 01352 702471, gwenno.e.jones@flintshire.gov.uk neu Beth Ditson ar 01352 702472, 07785523601, beth.ditson@flintshire.gov.uk

**GWYNEDD**

Disgyblion **blwyddyn 6 yn unig i gael eu henwebu** i ymuno a Chriw Celf yng Ngwynedd.
Dylai disgyblion Gwynedd yrru eu ceisiadau erbyn **Dydd Gwener y 19 o Fehefin 2015** at:
Criw Celf, Uned Celfyddydau Cymunedol, Archifdy Caernarfon, Swyddfa'r Cyngor Stryd y Jêl, Caernarfon. LL55 1SH. Dylid ysgolion ac unigolion Gwynedd sydd angen mwy o wybodaeth gysylltu â Gwawr Wyn Roberts GwawrR@gwynedd.gov.uk 01286 679721

**WREXHAM**

Gall disgyblion o **flwyddyn 5 a 6 gael eu henwebu** i ymuno â Chriw Celf yn Wrecsam. Disgyblion Wrecsam i yrru eu cais erbyn **Dydd Gwener 19 o Fehefin** at: Criw Celf, Oriel Wrecsam, Lon Rhos Ddu, Wrecsam, LL11 1AU. Dylid ysgolion ac unigolion Wrecsam sydd angen mwy o wybodaeth gysylltu â Jo Marsh oriel.learning@wrexham.gov.uk 01978 292 093

**Gwnewch yn siŵr bod pob cais yn cynnwys enw, oed, ysgol, cyfeiriad cartref, e-bost y rhieni a rhif ffôn cartref ar gefn pob darn o waith. Bydd panel o artistiaid yn dewis disgyblion i gymryd rhan yn y prosiect. Rydym yn gobeithio rhoi gwybod i'r disgyblion llwyddiannus cyn gynted â phosib. Bydd tystysgrif i ddathlu llwyddiant yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael ei yrru i'r ysgol ac mi fydd enw'r disgybl ac enw'r ysgol yn cael ei gynnwys mewn datganiad i'r wasg.**

**PWYSIG!**

Gallu naturiol y plentyn yr ydym angen ei weld wrth asesu'r gwaith celf. Mae'n hanfodol bwysig nad yw'r plentyn yn derbyn cymorth oedolyn nag artist i greu eu gwaith. Crëwyd y prosiect gan Gyngor Gwynedd ac ysbrydolwyd y cynllun gan Sgwadiau Sgwennu Llenyddiaeth Cymru.

*Ariannwyd Criw Celf gan Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru*